Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Haven

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Haven

Mae The Haven yn ysgol ddydd annibynnol sydd wedi'i chofrestru i ddarparu addysg ar gyfer hyd at ddeg disgybl 11-19 mlwydd oed sydd â diagnosis o gyflwr y sbectrwm awtistig (CSA). Yr elusen, Autism Initiatives, sy'n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Yr Wyddgrug yng Ngogledd Cymru. Mae naw disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU).

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2019. Caiff ei chefnogi gan athro, tîm o saith cynorthwyydd addysgu parhaol a phennaeth addysg gweithredol o'r sefydliad ehangach.

Cynhaliwyd ymweliad monitro diwethaf yr ysgol ym mis Mehefin 2022.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae The Haven yn darparu amgylchedd cynnes ac anogol ar gyfer disgyblion, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda, a thros gyfnod, yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus â nhw. Mae hyn yn helpu creu diwylliant o barch, ymddiriedaeth a goddefgarwch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â dysgu ac yn cynefino'n gyflym ag arferion y diwrnod ysgol.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i gryfhau'r ddarpariaeth yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi sefydlu strwythur staffio sy'n caniatáu parhad wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn yr ysgol yn effeithiol.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn y gymuned yn rheolaidd, er enghraifft cynllunio a chyllidebu trip i gaffi lleol ar ôl ymweld â'r llyfrgell i ddewis llyfr darllen. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau bywyd gwerthfawr disgyblion yn effeithiol.

Mae staff addysgu yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu o ran eu prif anghenion a'u nodau yn y dyfodol. Mae'r targedau ar gynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cysylltu'n briodol â thargedau o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig neu gynlluniau datblygu unigol (CDUau). Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gref o'u targedau ac maent yn gweithio'n bwrpasol i wneud cynnydd â'r rhain bob dydd.

Mae'r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 a ystyriwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

### Meysydd i'w datblygu

Megis dechrau datblygu y mae gwelliannau i gynllunio'r cwricwlwm yn y tymor hirach i gynnwys medrau gwerthfawr fel addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, medrau byw yn annibynnol a medrau yn gysylltiedig â gwaith.

Ceir cyfleoedd cyfyngedig i asesu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion yn ffurfiol. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn cwblhau asesiadau darllen, sillafu na rhifedd cychwynnol pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd nodi cymorth priodol ar gyfer y disgyblion hyn, i fonitro'u cynnydd neu werthuso effaith yr addysgu a'r dysgu ar gynnydd.

Nid yw ymagwedd gyson at gasglu, monitro a dadansoddi tystiolaeth gan arweinwyr wedi'i datblygu'n ddigonol. Er enghraifft, yn gyffredinol, caiff arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau, eu cwblhau'n anffurfiol a phrin yw eu ffocws ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. O ganlyniad, ni all arweinwyr werthuso effaith prosesau a systemau newydd, neu rai wedi'u mireinio, yn drylwyr.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Barhau i ddatblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod cynllunio'n cynnwys datblygu medrau yn raddol dros gyfnod

A2 Cryfhau ymagwedd yr ysgol at asesu cychwynnol i wella dealltwriaeth o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud, yn enwedig mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

A3 Datblygu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod prosesau'n canolbwyntio'n gyson ar effaith yr addysgu ar ddysgu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### A1 Sicrhau sefydlogrwydd mewn staffio, a recriwtio a chadw athro parhaol sydd â chymwysterau addas

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi recriwtio athro dosbarth profiadol, sydd â chymwysterau da. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol dîm llawn o gynorthwywyr addysgu parhaol hefyd.

Mae'r athro dosbarth a'r cynorthwywyr addysgu yn annog disgyblion yn gyson i ddangos diddordeb, mwynhau eu dysgu a herio'u hunain. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i deilwra dysgu i alluogi disgyblion i wneud cynnydd addas. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn bodloni'r argymhelliad hwn.

### A2 Gwella cysondeb ac ansawdd y cynllunio ar draws y cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael ag agweddau ar yr argymhelliad hwn trwy benodi athro dosbarth parhaol. O ganlyniad, mae ansawdd y cynllunio ar draws y cwricwlwm yn fwy cyson. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae llawer o'r newidiadau hyn ac nid ydynt wedi'u hymgorffori'n llawn yn holl feysydd y cwricwlwm eto. Er enghraifft, ni chaiff agweddau ar yr addysgu yr arsylwyd yn ystod yr ymweliad eu bod yn arfer dda eu hadlewyrchu yn y cynllunio bob amser.

### A3 Gwella asesu dysgu disgyblion a defnyddio'r wybodaeth hon yn fwy effeithiol i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r ysgol wrthi'n dechrau datblygu fframwaith asesu priodol ar gyfer ei chwricwlwm newydd. Mae staff addysgu yn asesu disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio hyn i lywio cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw systemau ysgol gyfan ar gyfer

asesu mannau cychwyn disgyblion yn ddigon cadarn. O ganlyniad, mae'n anodd mesur effaith cynllunio ac asesu ar gynnydd mewn dysgu, yn enwedig ym meysydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

### A4 Gwneud defnydd gwell o amgylchedd allanol yr ysgol i hyrwyddo dysgu

Megis dechrau cynllunio i ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored o fewn y cwricwlwm y mae'r ysgol. Yn ychwanegol, mae llawer o'r offer awyr agored wedi cael ei osod yn ddiweddar, ac o ganlyniad, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gwelliannau hyn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  31/08/2023